STATUTORY INSTRUMENTS

# 1980 No. 1620

# HOUSING, ENGLAND AND WALES

## The Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) (No. 1) (Welsh Forms) Regulations 1980

| | |
|---|---|
| *Made* - - - | *20th October* 1980 |
| *Coming into Operation* | *1st December* 1980 |

The Secretary of State for Wales in exercise of the powers conferred on him by sections 22(1) and 151(1) of the Housing Act 1980(**a**), as extended by section 2(2) and (3) of the Welsh Language Act 1967(**b**) and of all other powers enabling him in that behalf, hereby makes the following regulations:—

*Citation, commencement and interpretation*

**1.**—(1) These regulations may be cited as the Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) (No. 1) (Welsh Forms) Regulations 1980 and shall come into operation on 1st December 1980.

(2) In these regulations, "the principal regulations" means the Housing (Right to Buy) (Prescribed Forms) (No. 1) Regulations 1980(**c**).

*Prescribed Forms*

**2.** Forms 1 to 3 in the Schedule to these regulations are hereby prescribed as versions in Welsh which may be used instead of Forms 1 to 3 in the Schedule to the principal regulations for the purposes of section 5 of the Housing Act 1980 in relation to a house or flat situated in Wales.

**3.** Forms substantially to the like effect to the forms set out in the Schedule to these regulations may be used.

(a) 1980 c.51. (b) 1967 c. 66. (c) S.I. 1980/1391.

SCHEDULE

Ffurflen Rhif 1

DEDDF TAI 1980: ADRAN 5(1)

HYSBYSIAD TENANT DIOGEL SYDD AM GAEL YMARFER EI HAWL I BRYNU

---

RHAN A: TENANTIAID AM YMARFER EU HAWL I BRYNU

I: ..... (*Rhowch* **enw'r** *landlord*)

BYDDED HYSBYS I CHWI fod .....

.....

..... (*Rhowch enwau llawn y tenant(iaid)*)

sef tenant(iaid) y tŷ neu'r fflat a adwaenir fel.....

..... (*Rhowch y cyfeiriad*)

drwy hyn yn dymuno cael ymarfer yr hawl i'w brynu.

A yw'r tenant a enwir uchod neu fan lleiaf un tenant lle enwir rhagor nag un ohonynt, yn meddiannu'r tŷ neu'r fflat fel ei unig neu ei brif gartref? .....

(*Atebwch YDYW neu NAC YDYW*)

---

RHAN B: CANIATÂD UNRHYW ĜYD-DENANT NAD YW AM YMARFER YR HAWL I BRYNU. *Yr unig berson a ddylai lenwi'r Rhan hon yw cyd-denant nad yw am ymarfer ei hawl i brynu gyda'r cyd-denant(iaid) a enwyd yn Rhan A yr Hysbysiad hwn, ond sy'n cytuno iddynt hwy wneud hynny.* **Daw'r denantiaeth i ben pan gwblheir y prynu.**

Nid wyf fi/Nid ydym ni sydd wedi llofnodi isod yn dymuno ymarfer yr hawl i brynu'r tŷ neu'r fflat a ddisgrifir yn Rhan A yr Hysbysiad hwn a chytunaf/chytunwn i'r tenant (iaid) a enwir yn Rhan A ymarfer yr hawl i brynu a'r hawl i gael morgais.

| Llofnod(ion) | Enw(au) llawn | Cyfeiriad(au) | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |

RHAN C: TENANTIAID SY'N RHANNU'R HAWL I BRYNU GYDA'U PRIOD A/NEU AELODAU ERAILL EU TEULU. *Ni ddylid llenwi'r Rhan hon ac eithrio lle bydd y tenant(iaid) a enwyd yn Rhan A yr Hysbysiad hwn yn mynnu y dylai priod a/neu aelod(au) arall (eraill) teulu'r tenant(iaid) gael rhannu'r hawl i brynu. Mae'n bosibl i gymaint â thri aelod o deulu yn ogystal â'r tenant(iaid) gael eu henwi yn Rhan C.*

PRIOD

Caiff pob un o'r personau a enwir isod sef—

priod tenant a enwyd yn Rhan A yr Hysbysiad hwn; ac
sydd yn meddiannu'r tŷ neu'r fflat fel ei unig neu ei brif gartref

rannu'r hawl i brynu—

| |
|---|
| (*Rhowch yr enw(au) llawn*) |

AELODAU ERAILL Y TEULU (heb gynnwys y priod)

Caiff pob un o'r personau a enwir isod sef—

aelod o deulu'r tenant(iaid) a enwyd yn Rhan A yr Hysbysiad hwn; ac
sydd yn meddiannu'r tŷ neu'r fflat fel ei unig neu ei brif gartref; ac

sydd wedi byw gyda'r tenant(iaid) a enwyd yn Rhan A drwy gydol y 12 mis a ddaeth i ben gyda chyflwyno'r Hysbysiad hwn neu drwy gydol cyfnod byrrach a ganiatawyd gan y landlord

rannu'r hawl i brynu—

| |
|---|
| (*Rhowch yr enw(au) llawn*) |

RHAN D: CYFNODAU TENANTIAETH DDIOGEL (NEU GYFNOD MEWN LLETY O EIDDO'R LLUOEDD ARFOG) I SEFYDLU'R HAWL I BRYNU A'R HAWL I GAEL DISGOWNT.

Treuliodd y tenant(iaid) a enwyd yn Rhan A yr Hysbysiad hwn y cyfnod(au) canlynol fel tenant (iaid) (neu mewn llety a ddarperid ar gyfer aelod o'r lluoedd arfog parhaus), fel y'u cynhwyswyd yn Nhabl 1 isod:

TABL 1

*I'w lenwi mewn perthynas â phob un o'r tenantiaid a enwir yn Rhan A yr Hysbysiad hwn.*

| A<br>Enw'r tenant (iaid) yn Rhan A sy'n ceisio, hawl i brynu | B<br>Cyfnod tenantiaeth (neu gyfnod mewn llety o eiddo'r lluoedd arfog*) | | C<br>Enw'r landlord (neu'r gangen o'r lluoedd arfog*) | D<br>Cyfeiriad y tŷ neu'r fflat* |
|---|---|---|---|---|
| | O | HYD | | |
| | | | | |

**Ni ellir cynnwys cyfnodau a dreuliwyd mewn lletyau a ddarperid gan y lluoedd arfog ac eithrio lle'r oedd y tenant yn aelod o'r lluoedd arfog parhaus ar 21 Rhagfyr 1979 neu wedi hynny. Ar gyfer llety'r lluoedd arfog nid yw'n angenrheidiol llenwi colofn D.*

---

Treuliodd priod ymadawedig tenant a enwyd yn Rhan A yr Hysbysiad hwn y cyfnod(au) canlynol fel tenant fel y'u cynhwyswyd yn Nhabl 2 isod:

TABL 2

*I'w lenwi'n unig lle daeth tenant a enwyd yn Rhan A yr Hysbysiad yn denant ar farwolaeth ei briod/ei phriod. Lle na wyddys yr union ddyddiadau dylid cynnwys y dyddiadau'n fras.*

| Enw'r tenantiaid yn rhan A sy'n ceisio'r hawl i brynu | Enw'r priod ymadawedig | Cyfnod y denantiaeth | | Enw'r landlord | Cyfeiriad y tŷ neu'r fflat |
|---|---|---|---|---|---|
| | | O | HYD | | |
| | | | | | |

CYFNODAU YCHWANEGOL O BWYS AR GYFER DISGOWNT

NODER—Fe all y bydd cyfnodau tenantiaeth ychwanegol (neu gyfnodau mewn lletyau'r lluoedd arfog) na chawsant eu rhestru yn Nhablau 1 neu 2 uchod ac a all fod o bwys ar gyfer penderfynu swm y disgownt. Fe'u disgrifir yn Atodiad yr Hysbysiad hwn.

RHAN E: ANWYBYDDU GWELLIANNAU TENANTIAID AT DDIBENION PRISIO

*Ni ddylid llenwi hwn ac eithrio os gwnaed gwelliannau i'r tŷ neu'r fflat gan rywun heblaw'r landlord.*

Gwnaed y gwelliannau canlynol i'r tŷ neu'r fflat gan denantiaid a dylid eu hanwybyddu at ddiben prisio'r tŷ neu'r fflat:

| Disgrifiad o'r gwelliant | Enw'r tenant a wnaeth y gwelliant* |
|---|---|
| | |

**Os anwybyddir gwelliant at ddibenion prisio, rhaid iddo fod wedi cael ei wneud gan—*

(*a*) *y tenant(iaid) presennol; a/neu*

(*b*) *tenant blaenorol a ddaliai'r un denantiaeth; a/neu*

(*c*) *unrhyw aelod o deulu'r tenant presennol a thenant blaenorol y tŷ neu'r fflat o dan denantiaeth arall yn union o flaen cyflwyno'r denantiaeth bresennol.*

---

RHAN F: ACHOSION CYFREITHIOL

A oes gorchymyn llys wedi'i wneud yn gorfodi'r tenant(iaid) i ildio meddiant o'r tŷ neu'r fflat?

.....(*Ysgrifennwch OES neu NAC OES*)

Os OES rhowch y dyddiad a ddynodir yn y gorchymyn.....

.....

RHAN G: METHDALIAD ETC.

A oes unrhyw berson a enwyd yn Rhan A neu Ran C yr Hysbysiad hwn—

(i) yn wynebu deiseb methdaliad neu fod gorchymyn derbynnydd mewn grym yn ei erbyn ef neu hi?

.....(*Ysgrifennwch OES neu NAC OES*)

Os OES yw'r ateb, rhowch enw llawn pob un o'r personau hynny.....

.....

(ii) wedi dod i gytundeb neu i ddealltwriaeth gyda chredydwyr a'r telerau heb gael eu gweithredu hyd yn hyn?

.....(*Ysgrifennwch OES neu NAC OES*)

Os OES yw'r ateb, rhowch enw llawn pob un o'r personau hynny.....

.....

A oes yn Rhan A neu Ran C yr Hysbysiad hwn fethdalwr heb ei ollwng?

.....(*Ysgrifennwch OES neu NAC OES*)

Os OES yw'r ateb, rhowch enw llawn pob un o'r personau hynny.....

.....

RHAN H: PRYNU BLAENOROL O DAN YR HAWL I BRYNU

A fu i berson a enwyd yn Rhan A neu Ran C yr Hysbysiad hwn eisoes brynu tŷ neu ffilat yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban o dan **amodau hawl i brynu** Pennod 1 Rhan 1 Deddf Tai 1980 neu Ran 1 Deddf Hawliau Tenantiaid, Etc. (Yr Alban) 1980?

.....(*Ysgrifennwch DO neu NADDO*)

Os DO yw'r ateb, rhowch y manylion canlynol:

| Enw'r person(au) sydd eisoes wedi prynu | Dyddiad cwblhau'r prynu |
|---|---|
| | |

RHAN J: LLOFNODION ETC.

*Dylid llofnodi'r canlynol gan bob un o'r personau y mae eu henwau yn Rhan A yr Hysbysiad hwn.*

Yr wyf fi/Yr ydym ni sef y person(au) a enwyd yn Rhan A yr Hysbysiad hwn yn datgan drwy hyn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred/ein gwybodaeth a'n cred fod y manylion a roddwyd yn yr Hysbysiad hwn yn gywir a'm bod/a'n bod am i'r person(au) a enwyd yn Rhan C yr Hysbysiad hwn gael rhannu'r hawl i brynu.

| Llofnod(ion) | Enw(au) llawn | Cyfeiriad(au) | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |

Fe all y bydd person a wna ddatganiad ffug gan wybod hynny yn agored i erlyniad.

---

*Dylid llofnodi'r canlynol gan bob un o'r personau y mae eu henwau yn Rhan C yr Hysbysiad hwn.*

Yr wyf fi/Yr ydym ni sef y person(au) a enwyd yn Rhan C yr Hysbysiad hwn yn cytuno i rannu'r hawl i brynu gyda'r person(au) a enwyd yn Rhan A a gwnaf/gwnawn ddatgan drwy hyn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred/ein gwybodaeth a'n cred fod y manylion a roddwyd yn yr Hysbysiad hwn yn gywir.

| Llofnod(ion) | Enw(au) llawn | Cyfeiriad(au) | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |

Fe all y bydd person a wna ddatganiad ffug gan wybod hynny yn agored i erlyniad.

---

RHAN K: CYFEIRIAD GOHEBU

Os dylai'r ohebiaeth gael ei hanfon i gyfeiriad gwahanol i unrhyw un a roddwyd yn Rhan J (er enghraifft i gyfeiriad cyfreithiwr neu gynrychiolydd), rhowch yr enw a'r cyfeiriad hwnnw yn y fan hon:

.....

.....

## RHAN L: CYFLWYNO'R HYSBYSIAD

**Rhowch gyfeiriad** *y landlord lle mae'r tenant(iaid) a enwyd yn Rhan A yr Hysbysiad hwn yn arfaethu cyflwyno'r Hysbysiad hwn.*

.....

..... (*Cyfeiriad*)

(i) I wneud cais am yr hawl i brynu rhaid i'r tenant(iaid) ar ôl llenwi'r Hysbysiad hwn ei gyflwyno i'r landlord.

(ii) Gellir anfon yr Hysbysiad hwn drwy'r post. Os awdurdod lleol yw'r landlord dylai'r Hysbysiad hwn gael ei adael neu ei anfon drwy'r post i brif swyddfa'r awdurdod neu i unrhyw swyddfa arall o eiddo'r awdurdod a ddynodwyd ganddo fel un lle y derbynnir yr Hysbysiad hwn.

(iii) Lle bo'r landlord yn gymdeithas tai, gellir gadael neu anfon yr Hysbysiad hwn i'w prif swyddfa neu yn y swyddfa y bydd y tenant(iaid) yn delio â hi'n arferol.

(iv) Os y Comisiwn Trefi Newydd, corfforaeth datblygu tref newydd, Y Gorfforaeth Tai neu Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yw'r landlord, dylid anfon yr Hysbysiad drwy'r post i'w prif swyddfa.

(v) Os cyflwynir yr Hysbysiad hwn ar 3 Ebrill 1981 neu cyn hynny, dyddiad prisio'r tŷ neu'r fflat fydd 8 Awst 1980. Os cyflwynir yr Hysbysiad hwn wedi 3 Ebrill, dyddiad cyflwyno'r Hysbysiad hwn fydd dyddiad y prisio.

(vi) Mae'n ofynnol i'r landlord y cyflwynir yr Hysbysiad hwn iddo anfon i'r tenant(iaid) o fewn 4 wythnos Hysbysiad ysgrifenedig a fydd naill ai'n cydnabod eu hawl i brynu neu'n egluro pam nad oes ganddynt yn ei farn ef yr hawl i brynu. Estynnir y cyfnod hwn o 4 wythnos i gyfnod o 8 wythnos lle bo cais y tenant(iaid) am ymarfer eu hawl i brynu yn dibynnu ar unrhyw gyfnod gyda landlord ar wahân i'r un y cyflwynwyd yr Hysbysiad hwn iddo.

(vii) Lle bo'r Hysbysiad hwn wedi'i gyflwyno i'r landlord mae'n bosibl iddo gael ei dynnu'n ôl unrhyw bryd drwy gyfrwng hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r landlord.

## ATODIAD YR HYSBYSIAD

Ymhlith cyfnodau tenantiaeth ychwanegol (neu gyfnodau pryd yr oeddid mewn llety gyda'r lluoedd arfog) a all ddylanwadu ar swm y disgownt y mae—

(a) unrhyw gyfnod(au) pryd yr oedd unrhyw berson a enwyd yn Rhan A neu Ran C yr Hysbysiad neu ei briod ef neu hi neu briod ymadawedig naill ai'n denant diogel neu'n briod tenant diogel; neu

(b) unrhyw gyfnod(au) pryd yr oedd unrhyw berson a enwyd yn Rhan A neu Ran C yr Hysbysiad hwn mewn llety a ddarperid ar ei gyfer fel aelod o'r lluoedd arfog parhaus neu pryd yr oedd gwraig y person hwnnw mewn llety a ddarperid ar gyfer y priod hwnnw cyhyd â bod y person hwnnw neu ei briod yn aelod o'r lluoedd arfog parhaus ar 21 Rhagfyr 1979 neu wedi hynny.

Os bydd tenant yn dymuno i gyfnod(au) felly gael ei gyfrif/eu cyfrif a'r cyfnod hwnnw/y cyfnodau hynny heb gael ei gynnwys/eu cynnwys naill ai yn Nhabl 1 neu Dabl 2 Rhan D, fe gynghorir y tenant i gyflwyno manylion ysgrifenedig i'r landlord.

Ffurflen Rhif 2

DEDDF TAI 1980: ADRAN 5(1)

HYSBYSIAD YN ATEB HYSBYSIAD TENANT DIOGEL
AM GAEL YMARFER YR HAWL I BRYNU—ar gyfer ei ddefnyddio
ile nad yw'r landlord yn gorfforaeth datblygu,
Y Comisiwn Trefi Newydd na Bwrdd Datblygu Cymru Wledig

Cyfeiriad y tŷ neu'r fflat y gwneir cais am ymarfer yr hawl i brynu ar ei gyfer.....

.....

.....

I: pob un o'r personau a enwir yn Nhablau 1 a 2 isod—

BYDDED HYSBYS I CHWI—

Y cydnabyddir yr hawl i brynu'r tŷ neu'r fflat a enwyd uchod ac a geisiwyd mewn Hysbysiad a gyflwynwyd i'r landlord ar..... 19..... (*Rhowch y dyddiad*) mewn cysylltiad â'r person(au) canlynol a enwir yn Nhabl 1.

TABL 1

| |
|---|
| |

Na chydnabyddir yr hawl i brynu'r tŷ neu'r fflat a enwyd uchod ac a geisiwyd mewn Hysbysiad a gyflwynwyd i'r landlord ar ..... 19..... (*Rhowch y dyddiad*) mewn cysylltiad â'r person(au) canlynol a enwyd yn Nhabl 2.

TABL 2

| |
|---|
| |

Ym marn y landlord nid oes gan y person(au) a enwir yn Nhabl 2 yr hawl i brynu am y rhesymau canlynol:—

**Dyddiad** ..... 19..... **Llofnod** .....

**Enw mewn priflythrennau**..... **Swydd**.....

**ar ran** ..... (*Rhowch enw'r landlord*).

NODIADAU

Lle sefydlir yr hawl i brynu (drwy gyfaddefiad y landlord neu fel arall) fe ddylai'r landlord mor fuan ag y bydd yn ymarferol gyflwyno i chwi Hysbysiad ("Hysbysiad Cynnig") o dan adran 10 Deddf Tai 1980 yn disgrifio'r tŷ neu'r fflat (yn cynnwys unrhyw dir ychwanegol a ddefnyddir at ddibenion y tŷ neu'r fflat y cytunwyd ei gynnwys gan y landlord a'r tenant(iaid)) ac yn nodi barn y landlord ynglŷn â'r pris a'r amodau a gynigir ar gyfer trosglwyddiad yr eiddo neu'r brydles i chwi. Yr un pryd fe gewch ffurflen i wneud cais am gael ymarfer eich hawl i gael morgais gan eich landlord neu gan y Gorfforaeth Tai os ydych yn denant cymdeithas tai.

Lle bo'r landlord yn gwadu i denant yr hawl i brynu neu hawl aelod o'r teulu i rannu'r hawl i brynu, a'r tenant yn anghytuno â barn y landlord, gellir gofyn i'r llys sirol benderfynu'r mater.

Ffurflen Rhif 3

DEDDF TAI 1980: ADRAN 5(1)

HYSBYSIAD YN ATEB HYSBYSIAD TENANT DIOGEL AM GAEL YMARFER YR HAWL I BRYNU. AR GYFER EI DDEFNYDDIO LLE MAE'R LANDLORD YN GORFFORAETH DATBLYGU, Y COMISIWN TREFI NEWYDD NEU FWRDD DATBLYGU CYMRU WLEDIG.

Cyfeiriad y tŷ neu'r fflat y gwneir cais am ymarfer yr hawl i brynu ar ei gyfer .....

.....

.....

I: pob un o'r personau a enwir yn Nhablau 1 and 2 isod—

BYDDED HYSBYS I CHWI—

Y cydnabyddir yr hawl i brynu'r tŷ neu'r fflat a enwyd uchod ac a geisiwyd mewn Hysbysiad a gyflwynwyd i'r landlord ar ..... 19 ..... (*Rhowch y dyddiad*) mewn cysylltiad â'r person(au) canlynol a enwir yn Nhabl 1.

TABL 1

| |
|---|
| |

Na chydnabyddir yr hawl i brynu'r tŷ neu'r fflat a enwyd uchod ac a geisiwyd mewn Hysbysiad a gyflwynwyd i'r landlord ar ..... 19 ..... (*Rhowch y dyddiad*) mewn cysylltiad â'r person(au) canlynol a enwir yn Nhabl 2.

TABL 2

| |
|---|
| |

Ym marn y landlord nid oes gan y person(au) a enwir yn Nhabl 2 yr hawl i brynu am y rhesymau canlynol:—

Dyddiad..... 19..... Llofnod .....

Enw mewn priflythrennau .....Swydd.....

ar ran ..... (*Rhowch enw'r landlord*).

NODIADAU

Lle sefydlir yr hawl i brynu (drwy gyfaddefiad y landlord neu fel arall), fe ddylai'r landlord mor fuan ag y bydd yn ymarferol gyflwyno i chwi Hysbysiad ("Hysbysiad Cynnig" o dan adran 10 Deddf Tai 1980 yn disgrifio'r tŷ neu'r fflat (yn cynnwys unrhyw dir ychwanegol a ddefnyddir at ddibenion y tŷ neu'r fflat y cytunwyd ei gynnwys gan y landlord a'r tenant(iaid)) ac yn nodi barn y landlord ynglŷn â'r pris a'r amodau a gynigir ar gyfer trosglwyddiad yr eiddo neu'r brydles i chwi. Yr un pryd fe gewch ffurflen i wneud cais am gael ymarfer eich hawl i gael morgais gan eich landlord os byddwch yn dymuno hynny. Lle bo'r landlord yn gwadu i denant yr hawl i brynu oherwydd bod y tŷ neu'r fflat yn cael eu dal ganddo ef at ddibenion gwahanol i'r rhai y delir tai annedd gan awdurdodau lleol dan Ran V Deddf Tai 1957, a'r landlord o'r farn na ddylai fod yn bosibl i'r hawl i brynu gael ei ymarfer mewn cysylltiad â'r tŷ hwnnw neu'r fflat honno, gellir apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol. Os byddwch am ymarfer eich hawl i apelio, fe ddylech wneud hynny'n ysgrifenedig. Os bydd y tŷ neu'r fflat yn Lloegr, dylid cyfeirio'r apêl at:—

Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd
Adran Trefi Newydd 1
2 Marsham Street
Llundain SW1P 3EB.

Os bydd y tŷ neu'r fflat yng Nghymru, dylid cyfeirio'r apêl at:—

Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Adran Tai
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd CF1 3NQ.

Mewn unrhyw achos arall lle bo'r landlord yn gwadu i denant yr hawl i brynu neu hawl aelod o'r teulu i rannu'r hawl i brynu a'r tenant yn anghytuno â barn y landlord, gellir gofyn i'r llys sirol benderfynu'r mater.

*Nicholas Edwards,*
20th October 1980. Secretary of State for Wales.

## EXPLANATORY NOTE

(*This Note is not part of the Regulations.*)

These Regulations prescribe Welsh versions of—

(*a*) the form of Notice to be used by a secure tenant claiming to exercise the right to buy under Chapter I (The Right to Buy) of Part I of the Housing Act 1980; and

(*b*) the forms of Notices to be used by the landlord to admit or, as the case may be, deny the tenant's right to buy. (One form is for cases where the landlord is a development corporation, the Commission for the New Towns or the Development Board for Rural Wales, and a further form is for all other cases.)

The forms may be used only in relation to a house or flat situated in Wales.

SI 1980/1620
ISBN 0-11-007620-6

